



Nodyn Gwybodaeth: Drysau Tân Cyfansawdd

Mae'r nodyn hwn wedi ei gyfeirio at unrhyw un sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân mewn fflatiau preswyl ac sydd â phryderon ynghylch gallu'r drysau mynediad i'r fflatiau sy'n ddrysau tân cyfansawdd, i wrthsefyll tân a mwg.

Mae'r nodyn hwn yn bwysig i unrhyw adeilad arall sydd â drysau tân cyfansawdd.

Y cefndir

1. Mae modd creu system ddiogelwch tân mewn adeilad drwy ddefnyddio cyfuniad o fesurau gan gynnwys drysau tân, allanfeydd tân a chynlluniau dianc, systemau chwistrellu, addysg am ddiogelwch tân, ynghyd â sawl mesur arall. Felly, pe bai un o'r mesurau diogelu hyn yn methu – er enghraifft y drysau tân – ni ddylai hynny effeithio'n sylweddol ar ddiogelwch cyffredinol y preswylwyr. Mae pob drws, beth bynnag y bo'i statws, yn cynnig diogelwch o ryw fath mewn tân os bydd y drws wedi ei gau yn dynn.
2. Yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell, tynnwyd sylw Llywodraeth y DU at y ffaith bod rhai pryderon ynghylch ansawdd drysau tân **cyfansawdd** o ran a oeddent yn bodloni'n gyson y gofyniad sylfaenol ar gyfer gofynion adeiladu mewn cysylltiad â diogelwch tân. Mae'n ofynnol cael drysau tân (a'r setiau drysau perthnasol) i atal tân a mwg rhag lledaenu am gyfnod penodedig o 30 munud o leiaf¹.
3. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi comisiynu trefn brofi ar gyfer drysau tân cyfansawdd. Mae'n ymddangos o'u canfyddiadau fod problem ar draws y diwydiant mewn perthynas â drysau tân **cyfansawdd**. Nid yw drysau tân cyfansawdd, pan fydd y ddwy ochr yn cael eu profi yn unol â'r canllawiau statudol², yn atal tân a mwg rhag lledaenu am y cyfnod gofynnol o amser. O ganlyniad, mae'r diwydiant wedi cytuno i dynnu'r holl ddrysau tân **cyfansawdd** FD30 oddi ar y farchnad hyd nes y gellir darparu digon o dystiolaeth ardystiedig i roi sicrwydd bod y drysau hyn yn addas at y diben, ac yn bodloni gofynion sylfaenol Rheoliadau Adeiladu.

Diogelwch Tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth

4. Caiff cyfuniad o fesurau eu defnyddio i ddatblygu system ddiogelwch tân mewn adeilad, felly, pe bai un o'r mesurau diogelu hyn yn methu, ni ddylai hynny effeithio'n sylweddol ar ddiogelwch cyffredinol y preswylwyr. Fodd bynnag, mae drysau tân yn hanfodol bwysig i ddiogelwch tân unrhyw adeilad a'i feddianwyr ac er mwyn atal tân rhag lledaenu drwy'r adeilad. Mae hyn yn arbennig o wir mewn adeiladau amlfeddiannaeth lle y gallai tân ledaenu ac effeithio ar nifer o breswylfeydd yn eithaf cyflym.

¹Rheoliadau Adeiladu Dogfen Gymeradwy Rhan B Cyfrol 2 (Adeiladau ac eithrio Tai Annedd) Atodiad B tudalennau 201-205 (<https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-b-fire/?skip=2&lang=cy>)

² Bydd Setiau Drysau Tân sydd ar werth ar hyn o bryd yn y DU wedi'u profi yn unol â safon BS 476-22 neu EN1634-1. Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, mae'n bosibl y bydd angen profi naill ochr y drws neu'r llall, neu'r ddwy ochr. Mae Cymal 13.4 o EN 1634-1 yn nodi adegau pan fydd profi un ochr yn unig yn briodol. Mae Atodiad C o'r canllawiau yn eithrio'n benodol ddrysau cyfansawdd gan ddweud:

"Mae setiau drysau a wneir o ddeunyddiau eraill neu ddeunyddiau cyfansawdd wedi'u heithrio'n benodol yn yr atodiad hwn gan nad oes digon o dystiolaeth am eu perfformiad mewn tân i allu rhoi canllawiau o ran yr ochr wanaf yn erbyn tân".

Mae Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn credu bod hyn yn nodi'n glir bod angen profi drysau cyfansawdd ar y ddwy ochr er mwyn bodloni'r safonau.

5. Mewn achos o dân, mae 'adrannu' (sef cadw tân a/neu fwg, o fewn ardal fach er mwyn atal y tân a/neu fwg rhag lledaenu) yn hanfodol er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn gallu gadael yr adeilad yn ddiogel drwy'r llwybrau dianc sy'n mynd drwy'r ardaloedd cyffredin. Mae'n arbennig o bwysig felly bod y drysau i mewn i'r preswylfeydd unigol yn bodloni'r gofynion perfformiad yn y canllawiau ar y Rheoliadau Adeiladu ar gyfer gwrthsefyll tân a rheoli mwg am 30 munud o *leiaf*.
6. Dim ond os yw drws tân yn gweithio'n effeithiol a bod y drws yn gallu cau'n dynn gyda'r ddyfais cau drws sydd arno y gall drws tân gynnig diogelwch, a hynny drwy gyfyngu ar y mwg a'r tân sy'n cael eu lledaenu. Dylai'r ddyfais hunan gau allu cau'r drws yn dynn yn ei ffrâm ni waeth sut y mae ar agor, heb adael i glicied y drws a'r seliau ymyl ei rwystro.
7. Er mwyn sicrhau bod drysau tân yn gweithio'n effeithiol byddwn yn annog Personau Cyfrifol³ i wneud y canlynol yn rheolaidd:
 - a. Cynnal asesiadau risgiau tân yn rheolaidd a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn parhau'n ddiogel, gan gadw cofnodion priodol.
 - b. Sicrhau bod yr holl ddrysau tân, gan gynnwys y dyfeisiau cau, wedi cael eu profi'n addas i sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll tân a mwg, a'u bod wedi'u gwirio neu eu harolygu gan berson sydd â chymwysterau addas. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'r preswylwyr wedi gosod drysau tân o'r newydd eu hunain a'u bod efallai wedi dewis drws blaen newydd am ddibenion esthetig yn hytrach na diogelwch yr adeilad.
 - c. Rhoi gwybod i'r preswylwyr am y gofynion diogelwch tân, gan gynnwys gosod drysau blaen o'r newydd a phwysigrwydd cynnal a chadw drysau tân i lefel briodol, gan hysbysu'r Perchenogion Cyfrifol am unrhyw nam ar y drysau neu broblemau eraill, gan gynnwys y dyfeisiau hunan gau ar yr holl ddrysau tân.
8. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: "Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, Drysau Tân mewn Blociau o Fflatiau ac Adeiladau Tebyg: Canllawiau i Bersonau Cyfrifol" insert link to FSO guidance note] neu Ganllawiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ar ddiogelwch tân mewn fflatiau sydd wedi'u hadeiladu at y diben <https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/fire-safety-purpose-built-04b.pdf>.

Camau Gweithredu ar gyfer Perchenogion Adeiladau a Phersonau Cyfrifol eraill

9. O ystyried canfyddiadau'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol dylai landlordiaid neu berchenogion adeiladau osod setiau drysau o'r newydd wrth fynediad pob fflat os ydynt yn amau nad yw'r setiau drysau presennol yn bodloni'r gofynion o ran gwrthsefyll tân a mwg, fel sydd wedi'u nodi yn y canllawiau ar y Rheoliadau Adeiladu. Mae hyn yn arbennig o wir am ddrysau tân **cyfansawdd**. Dylai landlordiaid neu berchenogion adeiladau fynd ati i gynnal Asesiad Risgiau Tân neu i ddiweddarau'r un presennol er mwyn ystyried pa mor gyflym y mae angen ail-osod drysau tân nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion, a pha gamau lliniaru sydd angen eu cymryd yn y cyfamser, os oes angen cymryd rhai.
10. Dylai tystiolaeth fodoli ar gyfer unrhyw setiau drysau newydd sy'n dangos eu bod wedi cael eu profi mewn lleoliad profi wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS), neu leoliad cyfwerth, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu atal tân a mwg rhag lledaenu am gyfnod o 30 munud o leiaf. Bydd hyn yn bodloni'r safonau a nodir yn y canllawiau ar y Rheoliadau Adeiladu. Dylai'r dystiolaeth brawf gael ei gwirio'n ofalus i sicrhau bod y manylion sydd ynddi yn cyfateb yn union â manylion y setiau drysau sy'n

³Mewn blociau o fflatiau, fel arfer y landlord neu'r asiant rheoli fyddai'r person cyfrifol. Nid yw preswylwyr anheddau unigol yn "bersonau cyfrifol".

Nodyn Cyngor: Drysau Tân – Canllawiau i Bersonau Cyfrifol

Cyf: 3162-18

Cyhoeddwyd: 25 Medi 2018

cael eu gosod. Gall mân wahanïaethau (megis agoriadau gwydr, sribedi sy'n chwyddo, fframiau drysau a gwaith haearn etc) gael effaith niweidiol ar berfformiad y setiau drysau o ran diogelwch ac o ran gwrthsefyll tân a mwg.